# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Jennifer Raynor | Adran Etholiadol: | Dynfant |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Addysg |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd i holl breswylwyr Dynfant ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis o 10am tan 11am yng Nghanolfan Gymdeithasol Dynfant. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod ar gael trwy e-bost – Cyng.Jennifer.Raynor@abertawe.gov.uk neu drwy ffonio 01792 207807 a 637429 yn Neuadd y Ddinas.

Mae'r materion a godwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys parcio peryglus ar balmentydd, gan atal y ffordd i gerddwyr, parcio anystyriol ger Ysgol Gynradd Dyfnant, gan atal preswylwyr sydd am fynd i'r gwaith, rhieni mewn ceir nad ydynt yn cadw llygad am blant eraill ar droed wrth geisio parcio a thynnu allan. Mae hwn yn fater difrifol ac rwyf wedi ceisio cynnwys yr heddlu a'r Tîm Gorfodi Parcio. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw'n flaenoriaeth i'r naill un o'r ddau sefydliad hyn.

Gofynnodd preswylwyr i mi wella diogelwch traffig ar Bont Dynfant trwy ddarparu llinell wen yng nghanol y bont. Cafodd y llinell wen ei phaentio ar y ffordd.

Rwyf wedi defnyddio fy lwfans amgylcheddol cynghorydd i estyn plannu blodau gwyllt yn ardal Dynfant ac ar gynlluniau diogelwch ffyrdd i wella diogelwch wrth gyffordd Heol Dynfant a Goetre Fawr lle mae'n rhaid i blant groesi'r ffordd.

Rwy'n aelod o'r grŵp Cyfeillion Parc Dynfant. Rwy'n mynd i'w gyfarfodydd ac yn cysylltu ag aelodau perthnasol y Cabinet ar faterion a gododd y grŵp cyfeillion.

Defnyddiais rywfaint o'm lwfans amgylcheddol i gefnogi cais grant y grŵp i ariannu mwy o gyfarpar. Hefyd, defnyddiais rywfaint o'r lwfans i blannu blodau gwyllt ym Mharc Dynfant mewn lleoliadau ar gais y grŵp.

Euthum i gyfarfodydd PACT ac roeddwn (ac rwyf o hyd) mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn gynullydd yn Ysgol Gynradd Pen-y-Fro ac Ysgol Gyfun yr Olchfa.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Cabinet | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 5 | 80 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 4 | / | 6 | 67 | % |
| **CYFFREDINOL** | **40** | **/** | **50** | **80** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Is-gadeirydd y Fforwm Magu Plant Corfforaethol.
Is-gadeirydd y Grŵp Strategaeth Addysg sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, llywodraethwyr ysgolion ac uwch-swyddogion addysg, sy'n edrych ar gynnal safonau addysg uchel yn ystod y cyfnod cyni hwn. Arweinydd y Cyngor yw'r Cadeirydd.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Cynrychiolais Arweinydd y Cyngor ar Gyd-bwyllgor "Ein Rhanbarth ar Waith" (ERW), y corff rhanbarthol sy'n gyfrifol am wella cyflwyniad addysg yn rhanbarth y de-orllewin.

Ymdrinnir â'r agenda addysg. Cyflawnodd ysgolion uwchradd Abertawe eu canlyniadau TGAU gorau erioed.

Mae rhaglenni i wella presenoldeb, llythrennedd a rhifedd wedi dechrau.

Mae Ysgol Gynradd Tregŵyr, a gafodd ei hailadeiladu, ar agor. Mae gwaith ailfodelu wedi'i gwblhau yn ysgolion cynradd Newton, YGG y Cwm a Glyncollen.

Mae gwaith ailfodelu wedi dechrau yn Ysgol Gynradd Pentregraig. Mae plant Lôn-las bellach mewn safle dros dro wrth i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

-

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

-

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 - Aelod y Cabinet dros Addysg.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 03.05.2016 |